**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Y Stryd Fawr, Llandybïe, ac arlein trwy gyfrwng Zoom, ar ddydd Mercher, Mehefin 25ain, 2025 am 7.27 yh**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Presennol** | | | |
| **Cynghorwyr** | J. W. Tandy<br>D. W. Hopkins | E. W. Nicholas,<br>S. Roberts | Mrs A. J. Evans<br>L. Wilkins |
| **Yn mynychu arlei:** | D. Thomas | K. D. L. Davies | L. Thomas |
| **Ymddiheuriadau** | Dim | | |

**CEISIADAU AM GANIATÂD CYNLLUNIO A DDERBYNIWYD ODDIWRTH YR AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL I'W HYSTYRIED YNG NGHYFARFOD PWYLLGOR CYNLLUNIO Y CYNGOR, A GYNHALIWYD AR FEHEFIN 25ain, 2025, GAN WEITHREDU GYDAG AWDURDOD LLAWN.**

**743. Datganiad o Fuddiant**

Roedd y Cyng A. J. Evans wedi llofnodi ffurflen datgan buddiant, yn cofnodi bod aelod o'i deulu yn gweithio i gwmni TRJ Ltd.; roedd y datganiad yn cyfeirio at gais cynllunio PL/09334, sydd i'w drafod a'i ystyried yn y cyfarfod hwn.

**744.**

**Trafodaeth ynghylch y ceisiadau cynllunio canlynol:**

Ystyriaethau cynllunio i'w HYSTYRIED ym mis Mehefin:

**Cais Cynllunio rhif PL/09334**

- Chwarel Cilyrychen, Llandybïe, Rhydaman, SA18 3JG
- Gollwng Amodau 11, 19, 29, 30 31 a 32 o PL/02167 (Halogiad Tir, Monitro Ansawdd yr Aer, Cynllun Rheoli Cadwraeth, Dadansoddiad o'r Odyn Galch, Cynllun Rheoli Tirlunio ac Ecoleg)

**Sylwadau;** Roedd y pwyllgor am gynnig y sylw taw adroddiad drafft oedd yr adroddiadau allweddol, ac roedd swyddogion y Cyngor Sir hefyd wedi gwneud sylwadau ynghlyn â hyn, felly roedd hi'n anodd cynnig sylw diffiniol; serch hynny, roedd y pwyllgor am ddatgan bod adroddiadau wedi'u codi, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn sôn am wastraff yn gollwng i'r Afon Gwenlais ac i'r Afon Marlais, ac nid oedd hyn yn dderbyniol gan y gymuned. Byddai angen monitro, yn llym, pe byddai unrhyw waith yn cychwyn ar y safle.

Roedd sylwadau pellach yn cyfeirio at y ffaith bod yr adroddiadau ynghylch dwst a sŵn yn ymddangos braidd yn niwlog ac, unwaith eto, dylid cymryd gofal a monitro'r elfennau hyn y llym er mwyn gwarchod iechyd y preswylwyr sy'n byw yn y cyffiniau.

Yn olaf, gwnaethpwyd sylwadau y dylid monitro'r gwaith adfer i'r Odynau Calch, a sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud mewn modd cydymdeimladol er mwyn gwarchod uniondeb yr etifeddiaeth a'r gymuned o ystlumod sy'n byw yn yr odynau.

**Cais Cynllunio rhif PL/09354**

- Llain 16, Llandybïe, Rhydaman, SA18 2TL
- Materion a Gedwir yn Ôl o Gais Cynllunio Amlinellol PL/04558 (Cais Cynllunio Amlinellol – Tŷ Preswyl)

**Sylwadau;** DIM SYLWADAU

**Cais Cynllunio rhif PL/09437**

- Clwb Merlod Dyffryn Aman, Heol Blaenau, Llandybïe, Rhydaman, SA18 3ND
- Gosod 8 colofn llifoleuadau a lleoli cynhwysydd storio amgen yn yr arena marchogaeth presennol.

**Sylwadau;** Roedd y pwyllgor am gynnig y sylw y dylid gosod mwy nag un Bocs Ystlumod er mwyn lliniaru ar effaith llygredd golau posib, yn enwedig yn ystod y gaeaf.

**Cais Cynllunio rhif PL/09443**

- 2 Heol Lotwen, Capel Hendre, Rhydaman, SA18 3RP
- Arwydd hysbysebu maint 1.2m x 0.6m wedi'i gysylltu wrth y ffens ffin, gyda'r sail wedi'i osod 1.2m yn uwch na lefel y tir gerllaw.

**Sylwadau;** Roedd y pwyllgor o'r farn ei fod yn anaddas gosod arwydd a fyddai, o bosib, yn achosi trafferth i ddefnyddwyr yr heol, ger y cyffordd prysur hwn.

**Cais Cynllunio rhif PL/09454**

- Yr Hen Felin, Heol y Brenin, Llandybïe, Rhydaman, SA18 2TL
- Atgyweirio ac addasu'r adeilad i greu bwthyn gwyliau gydag ardal storio ar y llawr daear, a chanolfan ddadansoddi yn yr adeilad to-ar-oledd blaen agored cysylltiedig.

**Sylwadau;** Roedd y pwyllgor am gynnig y sylw y dylid croesawu adfer y fath safle treftadaeth pwysig, a dylid hefyd groesawu creu swyddi a darparu cyfle am eiddo preswyl ar gyfer ymwelwyr i'r ardal, yn enwedig o ystyried y nifer fechan o lefydd parcio ceir sydd eu hangen.

**Cais Cynllunio rhif PL/09473**

- Penygroes Concrete, Heol Norton, Penygroes, Llanelli, SA14 7RU
- Seilo powdr swmp newydd

**Sylwadau;** Roedd y pwyllgor am nodi y dylid gosod amod ar y cais, sef bod y cyffordd newydd a'r mynediad yn cael eu defnyddio gan y cwmni; nid dyma, yn gyfangwbl, yw'r sefyllfa ar hyn o bryd gan fod y preswylwyr wedi cwyno wrth Gynghorwyr am ddwst, sŵn a thraffig.

Wedi dweud hynny, byddai'r pwyllgor am gefnogi'r cais oherwydd bod y busnes yn darparu swyddi sydd mawr eu hangen yn yr ardal.

**745.** Gan nad oedd unrhyw eitemau pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.48 yh